# Adeilad uchaf y byd

Mae adeiladau uchel yn saethu i fyny ar draws y byd fel petai cystadleuaeth Adeilad Uchaf y Byd yn cael ei chynnal. Ar hyn o bryd, gwesty yn Dubai, yn y Dwyrain Canol biau'r teitl hwnnw, ond mae'n siwr mai dim ond am gyfnod byr y bydd yn gallu brolio'r teitl gan fod gwaith ar droed yn barod i adeiladu gwesty a fydd yn ymestyn am gilometr i fyny i'r awyr. Y Kingdom Hall fydd hwnnw, gwesty sy'n cael ei adeiladu yn Saudi Arabia gan deulu bin Laden.

Ar hyn o bryd, fodd bynnag, Burj Khalifa, yn Dubai yw'r adeilad uchaf yn y byd. Mae'n mesur 828 metr (2,716.5 troedfedd) ac mae'n cynnwys 162 llawr - mwy nag unrhyw adeilad arall - ar hyn o bryd. Mae'n llwyddo i dorri sawl record a dweud y gwir, gan gynnwys yr adeilad gyda'r lifft hiraf yn y byd, yr adeilad lle mae'r llawr uchaf lle y gall pobl sefyll er mwyn edrych i lawr dros yr ardal (Llawr 124) a'r adeilad gyda'r pwll nofio uchaf yn y byd (Llawr 76).

Yn yr adeilad, mae fflatiau hynod o foethus, swyddfeydd hynod o foethus, gwesty hynod o foethus. Yn ogystal, mae canolfan hamdden, siopau, y mosg uchaf yn y byd (Llawr 158) a bwytai. Mae'r adeilad yn anhygoel!

Mae'r siart isod yn dangos adeiladau uchaf y byd ym mis Ionawr 2012, ynghyd â'r dyddiadau y cawson nhw eu cwblhau.

